Canllawiau ynglŷn â'r cais a chymeradwyaeth ar gyfer y CPCP (Asesiad yn Unig)

Ymgeiswyr a Phrifathrawon 2020-21

- Pennaeth ac ymgeisydd i ymgyfarwyddo â thrafod Canllawiau CPCP LlC gan gynnwys y Safonau Arweinyddiaeth
- https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/ CYM
- Yr ymgeisydd i gynnal hunan-adolygiad o'u harfer arweinyddol a chwblhau'r Adolygiad Safonau Arweinyddiaeth (ASA).
- Yr ymgeisydd i adnabod Profiad Arweinyddiaeth i fyfyrio arno a'i gofnodi yn y Dasg Profiad Arweinyddiaeth. (TPA)
- Ystyriwch yr awgrymiadau isod cyn cynnal y drafodaeth broffesiynol ynghylch eich cais.
    - Awgrymiadau ar gyfer darpar ymgeisydd
    - Awgrymiadau ar gyfer Pennaeth
- Y Pennaeth a'r darpar ymgeisydd i gwrdd am drafodaeth broffesiynol er mwyn ystyried yr ASA, TPA a'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i ddangos parodrwydd ar gyfer y rhaglen NPQH (asesiad yn unig).

- Lle nad yw'r dystiolaeth yn eglur ac yn argyhoeddedig, dylid ystyried cais ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid - Paratoi ar gyfer CPCP.

- Where Lle mae'r dystiolaeth yn ddigon i gadarnhau cytundeb y Pennaeth, maent i gofnodi eu bod yn cymeradwyo ar y ffurflen gais gan cadarnhau bod:
    - Trafodaeth broffesiynol wedi'i chynnal gyda'r ymgeisydd ynghylch yr ASA a'r TPA.
    - Hyd eithaf eu gwybodaeth, mae'r dystiolaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd ar y ffurflen gais yn gywir.
    - Prifathrawiaeth yw'r cam nesaf realistig i'r ymgeisydd ac mae ef / hi wrthi'n chwilio am swydd pennaeth
    - Mae'r ymgeisydd yn ymgeisydd addas ar gyfer CPCP gan ei fod / bod yn gallu cwrdd â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth ac mae'r potensial ganddo / ganddi i fod yn Bennaeth effeithiol.
    - Bydd y Pennaeth yn sicrhau amser a chefnogaeth i'r ymgeisydd baratoi ar gyfer asesiad.
- Dylai'r ymgeisydd hysbysu'r ALl / Ymynghorydd Her / YCG o'u bwriad i ymgeisio am yr CPCP.
- Wedi derbyn ffurflen gais, bydd pob rhanbarth yn trefnu i'r cais gael ei ystyried i'w gymeradwyo trwy'r broses ardystio ranbarthol.
- Pan fydd cais yn derbyn cymeradwyaeth, hysbysir ymgeiswyr o'r trefniadau a'r dyddiadau terfynol ar gyfer y rhaglen.
- Lle nad yw cais yn derbyn cymeradwyaeth, efallai y bydd ymgeiswyr am wneud cais ar gyfer y Rhaglen darpar Benaethiaid.

2020-21

Darpar Ymgeisydd Datganiadau i'w hystyried cyn gwneud cais ar gyfer CPCP (Asesiad yn Unig)	
Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn wir ystyried os ydych yn barod ar gyfer asesiad cyn ymgeisio. Mae'r Ganolfan Asesu yn asesiad trylwyr o barodrwydd ar gyfer Prifathrawiaeth yn erbyn y Safonau Proffesiynol ac nid yw pawb yn bodloni'r gofynion. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n fwy priodol i aros a chynllunio profiadau er mwyn cryfhau'r cais i'r dyfodol. Er mwyn ystyried os ydych yn barod, gallwch fyfyrio ar y cwestiynau canlynol::	
Ydych chi'n credu eich bod chi'n barod am Brifathrawiaeth o fewn y 12 mis nesaf?	Y/N
Ydych chi'n gweld Prifathrawiaeth fel y cam naturiol nesaf yn eich gyrfa - cam y byddwch chi'n mynd ati i'w geisio yn ystod y 12 mis nesaf?	Y/N
Allwch chi ddangos eich bod yn arwain ac yn rheoli ysgol mewn perthynas â'r holl Safonau Arweinyddiaeth Ffurfiol?	Y/N
Ar ôl cwblhau'r ASA, ydych chi'n teimlo eich bod yn dangos o leiaf cynnydd boddhaol yn erbyn pob un o'r Safonau Arweinyddiaeth?	Y/N
Ydych chi'n gallu dangos eich profiad o arwain yr ysgol gyfan yn effeithiol trwy eich 'Tasg Profiad Arweinyddiaeth'?	Y/N

Pennaeth / Rheolwr Llinell Datganiadau i'w hystyried cyn cymeradwyo cais ar gyfer CPCP (Asesiad yn Unig)Headteacher /	
Penaethiaid / Rheolwyr Llinell Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn wir ystyried os yw'r ymgeisydd yr ydych yn eu cefnogi yn barod ar gyfer asesiad cyn ymgeisio. Mae'r Ganolfan Asesu yn asesiad trylwyr o barodrwydd ar gyfer Prifathrawiaeth yn erbyn y Safonau Proffesiynol ac nid yw pawb yn bodloni'r gofynion. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n fwy priodol i aros a chynllunio profiadau er mwyn cryfhau'r cais i'r dyfodol. Er mwyn ystyried os yw'r ymgeisydd yn barod cyn eu hardystio, efallai yr hoffech fyfyrio ar y cwestiynau canlynol:	
A yw'r ymgeisydd wedi dangos ei fod yn arwain ac yn rheoli ysgol mewn perthynas â'r holl Safonau Arweinyddiaeth Ffurfiol?	Y/N
Ar ôl astudio'r ASA, a ydych yn credu bod cyfanswm ac ansawdd y profiadau sydd ynddo yn dangos tystiolaeth o gynnydd digonol yn erbyn pob un o'r Safonau Arweinyddiaeth?	Y/N

2021

A ydych wedi'ch argyhoeddi o allu'r ymgeisydd i ddarparu tystiolaeth o effaith barhaus yn y ganolfan asesu?	Y/N
Ydych chi'n gweld Prifathrawiaeth fel y cam nesaf naturiol yn eu gyrfa, yn ystod y 12-18 mis nesaf?	Y/N
A ydych wedi'ch argyhoeddi o barodrwydd yr ymgeisydd i ymgymryd â Chanolfan Asesu CPCP yn llwyddiannus ym mis Chwefror 2021?	Y/N

2020-21